

Sul Cymorth Cristnogol

Darlleniad 1: Amos 8: 1-11

Darlleniad 2: Colosiaid 4: 2-6

O! Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist a Thad holl drigolion y ddaear, creawdwr a chynhaliwr holl gyrrau'r cread, diolchwn i ti am ddod i'n byd yn dy Fab, i fod yn esiampl ac yn iachawdwr i bob un ohonom.

Mawrygwn a gogoneddwn dy enw am yr holl fendithion a dderbyniwn o'th law. Diolch i ti am yr holl gysuron yr ydym yn eu mwynhau ac am y gynhaliaeth feunyddiol a dderbyniwn o'th law.

Gofynnwn i ti faddau inni ein pechodau i'th erbyn. Credwn, O! Dad, nad am i ni dorri rhyw fân reolau a mân gyfreithiau y gwnaethom bechu, ond yn hytrach am bod cymaint o drigolion y blaned fach hon yr ydym yn cael y fraint o fyw arni heb yr anghenion sylfaenol i gadw corff ac enaid ynghyd.

Maddau i ni, ein Tad, bod cymaint o famau a'u plant yn awchu am ddiferyn o ddŵr glân i'w yfed ac am grystyn sych i'w fwyta, a ninnau'n mwynhau mwy na digon o gynnyrch dy gread. Gwared ni rhag llygaid sy'n amharod i weld angen dy blant. Gwared ni rhag dwylo sy'n gwrthod ymestyn. Maddau inni'r galon galed.

'O! gwared ni rhag i'n osgoi
Y sawl ni wŷr at bwy i droi;
Gwna ni'n Samariaid o un fryd,
I helpu'r gwael yn hael o hyd.'

Gweddiwn am iti 'anadlu arnom ni o'r nef, falm dy drugaredd dawel gref' fel y gallwn ymddatod o'n diogi ysbrydol i fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb fel rhai sy'n arddel dy enw di.

Gad inni sylwi bod gwir lawenydd i'w ganfod wrth inni gynnal ein

gilydd yn dy gariad di, oherwydd mai gwasanaethu ein gilydd sy'n ein galluogi i'th wasanaethu di, 'Gad inni weld dy wyneb di ymhob cardotyn gwael.'

Diolchwn i ti am unigolion a chymdeithasau sydd mor ymroddgar yn gweini er lleddfu angen y newynog a'r tlawd. Nertha ni hefyd, O! Dad, i sylweddoli bod angen y newynog yn fwy na'n cardod. Rho inni'r weledigaeth i sylweddoli bod angen adnoddau digonol i ddiwallu anghenion y tlawd a'r newynog, fel y gallont hwy edrych ymlaen at yfory mewn gobaith.

Gweddiwn am i'r cariad sy'n ein clymu fel teuluoedd ymestyn i gofleidio holl blant dynion. Diolchwn i ti fod dy dadolaeth di'n golygu ein bod yn frodyr ac yn chwiorydd i'n gilydd beth bynnag fyddo'n hamgylchiadau, beth bynnag fyddo lliw ein croen. Rho inni'r gras i weld pob mab i ti yn frawd i ni, O! Dduw.

Cynorthwya ni i anadlu'n ddwfn o'th Ysbryd, er mwyn inni brofi'r cariad sydd uwchlaw gwybodaeth ac fel y cynysgaeddir o'n mewn ysbryd ufudd-dod i'th ewyllys di.

'Llifed cariad Pen Calfaria
Drwy dy Eglwys ato ef:
A'th diriondeb di dy hunan
Glywo'r truan yn ei llef:
Dysg hi i ofni byw yn esmwyth,
Gan anghofio'r byd a'i loes;
Nertha hi i dosturio wrtho,
A rhoi'i hysgwydd dan ei Groes.'

Gweddiwn am weledigaeth o fewn yr Eglwys iddi gyfrannu'n helaethach yn dy genhadaeth sy'n gwaredu'r tlodion o'u poen, a'r cyfoethog o'u pechod. Yn enw Iesu Grist. Amen.

Gwyn Thomas